Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ty Baltig House, Sgwar Mount Stuart,
Bae Caerdydd, CF10 5FH
Lein Gymorth 0800 2888 329 www.wcva.org.uk

Deddfwriaeth arwyddocaol ym maes cydraddoldeb

Ar 8 Ebrill 2010, cafodd y Mesur Cydraddoldeb Gydsyniad Brenhinol. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn cynnwys cyfres o fesurau ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, a fydd yn helpu Prydain i ddod yn gymdeithas decach.

Dyma rai o elfennau penodol y mesur:

- Gwneud y gyfraith yn haws ei deall a'i gweithredu drwy symleiddio 116 darn o ddeddfwriaeth cydraddoldeb a'u cyfuno mewn Deddf unigol ar gyfer unigolion, awdurdodau cyhoeddus a sefydliadau preifat.
- Rhoi hawl i bobl beidio â chael eu trin yn llai ffafriol gan awdurdodau cyhoeddus oherwydd oed, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, statws trawsrywiol; yn ogystal ag anabledd, rhywedd neu hil, a oedd eisoes wedi'u cynnwys.
- Ymestyn rheolau ynghylch gwahaniaethu ar sail oedran er mwyn cynnwys nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau, er mwyn sicrhau, er enghraifft, na fydd yswiriant neu driniaeth feddygol yn cael eu gwrthod yn annheg i bobl oherwydd eu hoedran.

Mae Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth yn darparu canllaw defnyddiol a syml ar yr hyn y mae'r Mesur Cydraddoldeb yn ei olygu i chi: http://tiny.cc/von8z

Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn archwilio sut mae'r Ddeddf yn gweithio'n ymarferol drwy esbonio beth mae'n ei olygu a sut y dylai weithio ac, yn y pen draw, drwy ddefnyddio ei bwerau i helpu i unioni unrhyw gamweddau. Caiff hyn ei esbonio drwy Godau a Chanllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, sy'n nodi'r hyn y mae'r ddeddfwriaeth newydd yn ei wneud i gyflogwyr, i wasanaethau cyhoeddus ac i bobl Prydain. Y gobaith yw y bydd Canllawiau penodol ar gyfer y Trydydd Sector yn cael eu cynhyrchu er mwyn helpu'r sector i ddeall sut a ble mae'r Ddeddf yn berthnasol iddynt. I gael gwybodaeth am y rhaglen waith hon, dilynwch y ddolen ganlynol: http://tiny.cc/vhfkc

Bydd darpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb yn dod i rym ar wahanol adegau er mwyn rhoi amser i'r bobl a'r mudiadau y bydd y cyfreithiau newydd yn effeithio arnynt allu paratoi'n ofalus ar eu cyfer. Bwriedir i Brif Ddarpariaethau'r Ddeddf ddod i rym ym mis Hydref 2010. Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswyddau penodol ar gyfer awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru.

Cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Ymarfer Gwrando ynghylch y dyletswyddau hyn y llynedd, a bydd yn cyhoeddi ymgynghoriad manwl ddiwedd y Gwanwyn. Dilynwch y ddolen hon i gael rhagor o fanylion: http://tiny.cc/s52em

Lansio galwad €35 miliwn am brosiectau newydd

Heddiw, lansiodd y Comisiwn Ewropeaidd alwad gwerth €35 miliwn i ariannu prosiectau eco-arloesi'n unol â'r Rhaglen Cystadleurwydd ac Arloesi.

Yn unol â galwad Eco-arloesi 2010 y Rhaglen Cystladleurwydd ac Arloesi am gynigion, mae cyllid ar gael ar gyfer prosiectau newydd ym meysydd ailgylchu deunyddiau, cynhyrchion adeiladu cynaliadwy, y sector bwyd a diod ac arferion busnes gwyrdd.

Bydd croeso arbennig i geisiadau gan fusnesau bach â chynhyrchion neu wasanaethau gwyrdd sydd ag angen cefnogaeth i dreiddio i farchnadoedd. Mae'r alwad yn para tan 9 Medi 2010.

http://tinyurl.com/y5t7rsu

Cyfleoedd lleoliadau gwaith ar gyfer y trydydd sector

A oes darn o waith neu brosiect tymor byr yr hoffai eich mudiad ei gyflawni? A ydych chi'n brin o adnoddau neu allu i gyflawni hyn?

Os felly, mae'n bosib y byddai gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy am raglen beilot sy'n cael ei rhedeg gan WCVA sy'n cynnig lleoliadau gwaith i fyfyrwyr yn y trydydd sector.

Nod y Rhaglen Lleoliadau Gwaith i Fyfyrwyr yw darparu sgiliau a gwybodaeth arbenigol i fudiadau'r trydydd sector drwy leoli graddedigion i gyflawni darn o waith neu brosiect penodol. Gall y rhaglen leoli graddedigion am gyfnod sy'n amrywio o bedair wythnos i dri mis ar sail rhan-amser neu amser llawn. Yr unig gostau i'r mudiad fydd costau teithio.

Dywedodd Julie Skelton, cydlynydd y prosiect, ei fod yn gyfle gwych i fudiadau yn y trydydd sector, ac mae'n gyfle y mae WCVA eisoes wedi manteisio arno.

'Efallai bydd pobl yn gofyn beth yw'r gwahaniaeth rhwng lleoliad gwaith a gwirfoddoli. Mae lleoliad gwaith yn ddarn unigol o waith sy'n debyg i brosiect – mae ganddo ddyddiad dechrau a gorffen clir, mae'n brofiad da y gall y myfyriwr ei ychwanegu at ei CV, ac mae'n wirioneddol werthfawr i'r mudiad.

'Gallai enghreifftiau gynnwys prosiectau ymchwil, trefnu digwyddiad, astudiaethau dichonoldeb, treialu syniadau newydd, gwella gweithdrefnau llywodraethu megis risg a rheoli gwirfoddolwyr.

'Mae'r mudiadau rwyf i wedi siarad â nhw yn gweld y lleoliadau gwaith fel cyfle i roi cynnig ar rywbeth newydd, rhywbeth o'u rhestr ddymuniadau, gan ddangos ar yr un pryd y gall y trydydd sector fod yn ddewis gyrfa llawn her a boddhad.'

Mae WCVA eisoes wedi cael budd o leoliad gwaith sydd â'r nod o wreiddio arferion da yn y sector iechyd, gofal cymdeithasol a lles.

Mae Michael Richards, 24, o Bowys wedi bod yn gweithio yn WCVA ers mis Ebrill. Drwy ei leoliad gwaith, mae'n datblygu portffolio arfer da a fydd yn galluogi partneriaid ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ar draws yr holl sectorau i rannu gwybodaeth ac i ysgogi syniadau newydd. Bydd hefyd yn rhoi llwyfan i'r trydydd sector ddangos sut mae'n gwella darpariaeth drwy gyfrwng gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd a chynnig gwerth ychwanegol.

Dywedodd Michael, sydd â gradd mewn hanes a gwleidyddiaeth a gradd meistr mewn theori wleidyddol, wrth Rhwydwaith Cymru: 'Mae gen i ddiddordeb brwd mewn gwleidyddiaeth, a dyna'r prif reswm pam yr oeddwn yn awyddus i ddod at WCVA.

'Mae gweld y ffordd y mae'r sector gwirfoddol yn rhyngweithio â'r sector cyhoeddus yn rhoi darlun gwerthfawr o strwythur gwleidyddiaeth yng Nghymru.

'Rwy'n credu bod hwn yn ddarn o waith o ansawdd uchel sy'n fuddiol iawn. Mae'n bosib y bydd yn cael effaith ar y sector gwirfoddol ac rydw i'n falch o fod yn rhan ohono.

'Roeddwn hefyd yn awyddus i gael lleoliad gwaith er mwyn ehangu fy CV. Mae gen i gymwysterau academaidd, ond mae'r lleoliad gwaith hwn wedi fy ngalluogi i feithrin sgiliau gwaith y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt. Mae fy ngheisiadau am swydd yn fwy cyflawn erbyn hyn, ac rwy'n siŵr y bydd hyn yn helpu yn y farchnad swyddi tymor byr.

Mae'r rhaglen lleoliadau gwaith yn ffordd syml a hawdd o wneud defnydd da o wybodaeth a sgiliau arbenigol – mae'n gyfle i bawb fod ar ei ennill. Mae graddedigion a chanddynt amrywiaeth o sgiliau a diddordebau yn awyddus i gael lleoliadau gwaith yn y trydydd sector. Os hoffai eich mudiad chi gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Julie Skelton ar jskelton@wcva.org.uk.

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr Atodiad Cenedlaethol gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.